College of Policing

Working together
to prevent crime

# Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith (LEDS)

## 2023

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

College of Policing

# Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith (LEDS)

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran 39A(5) o Ddeddf yr Heddlu 1996, fel y'i diwygiwyd gan Adran 124(5) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014

Chwefror 2023

Hawlfraint y Coleg Plismona Cyfyngedig 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i **nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.**

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth sy'n hawlfraint trydydd parti y bydd angen i chi gael caniatâd y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn **www.gov.uk/official-documents**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn **contactus@college.pnn.police.uk**

ISBN 978-1-5286-3740-4

E02809802 02/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr
Llyfrfa Ei Fawrhydi

# Cynnwys


**1 Cyflwyniad** **1**

**2 Sail statudol y Cod** **3**

**3 Diben y Cod** **4**

**4 Cwmpas y Cod** **7**

**5 Dibenion plismona, gorfodi'r gyfraith a diogelu** **10**

**6 Deg egwyddor ar gyfer defnydd moesegol a phroffesiynol o ddata a gwybodaeth** **12**

**7 Cydymffurfiaeth a chamymddwyn** **15**

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

# 1 Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddir y Cod Ymarfer hwn ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith (LEDS) gan y Coleg Plismona, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996. Mae'r Cod hwn yn berthnasol i bob prif swyddog[1] heddlu yng Nghymru a Lloegr sydd â mynediad at PNC a LEDS mewn cysylltiad â chyflawni eu swyddogaethau. Rhaid i bob prif swyddog roi sylw i'r Cod Ymarfer hwn ('y Cod') wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth y mae'r Cod yn ymwneud â hi[2]. Mae'r Cod hefyd ar gael i'w fabwysiadu gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, gan gynnwys heddluoedd yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, a heddluoedd eraill y DU nad ydynt yn dod o dan y diffiniad a nodir yn **adran 4.1** isod.

1.2 Mae'r PNC yn rhoi mynediad i'r heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith at ffynhonnell ganolog o wybodaeth am unigolion, eiddo a cherbydau, a gasglwyd ac a ddefnyddir at ddibenion gorfodi'r gyfraith, plismona a diogelu (**gweler 5.1-5.5** isod am ddiffiniadau o'r dibenion hyn). Mae'r Swyddfa Gartref, trwy'r Rhaglen Ddata Gorfodi'r Gyfraith Genedlaethol (NLEDP), yn datblygu LEDS i ddisodli'r PNC. Mae'r NLEDP yn adleoli'r setiau data lluosog (cynhyrchion) sy'n cael eu dal ar hyn o bryd o fewn PNC i lwyfan technoleg newydd yn LEDS. Bydd y gwaith datblygu ar LEDS, maes o law, yn arwain at ddatgomisiynu PNC. Yn y cyfamser, bydd y ddwy system yn cydfodoli, a gall rhywfaint o ddata ymddangos ar y ddwy. Mae LEDS yn datblygu trwy ddull cynyddrannol, a fydd yn caniatáu ychwanegu setiau data ymhellach.

1.3 At ddibenion y Cod, defnyddir y termau 'data' a gwybodaeth yn y cyd-destun canlynol. Mae data yn derm a ddefnyddir yn aml am ffeithiau neu ffigurau sy'n darparu ffynhonnell y wybodaeth. Unwaith y bydd y data wedi'u prosesu (eu trefnu, eu strwythuro neu eu cyflwyno), gellir eu hystyried yn gydran o wybodaeth, fel yn 'gwybodaeth yr heddlu'. Felly mae'r Cod yn berthnasol i'r holl wybodaeth sy'n cael ei storio o fewn PNC a LEDS gan fod hwn yn cynnwys data. Bydd hyn yn cynnwys data cofnodion troseddol, data personol a chategorïau arbennig o ddata personol (fel y'u diffinnir mewn deddfwriaeth diogelu data).

1 Mae'r Cod hwn yn uniongyrchol berthnasol i brif swyddogion fel y'i diffinnir yn adran 101 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd).

2 Fel sy'n ofynnol gan adran 39A(7) o Ddeddf yr Heddlu 1996.

1.4 Mae'r Cod hwn yn disodli'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (2005)[3]. Mae’n berthnasol i reoli data a gwybodaeth drwy’r naill system neu’r llall neu’r ddwy (PNC a/neu LEDS) hyd nes y bydd PNC yn cau. Mae’r Cod yn darparu fframwaith a chyd-destun gweithredol i awdurdodau perthnasol, megis Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), i fonitro sut mae gwybodaeth o fewn PNC a LEDS yn cael ei chreu, ei chyrchu, ei chymhwyso, ei rhannu, ei hadolygu a’i dileu. Fe’i hategir gan y Ddogfen Ganllaw ar gyfer y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) a’r Gwasanaeth Data Gorfodi’r Gyfraith (LEDS) (‘y ddogfen ganllaw’), sy’n rhoi manylion am sut y gall rheolwyr a defnyddwyr gefnogi eu prif swyddogion. wrth gydymffurfio â gofynion y Cod.

1.5 Mae'r Coleg Plismona wedi ymgynghori â rhanddeiliaid, megis yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol[4] a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC), yn ogystal â'r cyhoedd, cyn cyhoeddi'r Cod hwn.

3 Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (2005) o dan destun adran 39A(1) o Ddeddf yr Heddlu 1996 fel yr oedd cyn y diwygiadau a wnaed gan adran 124(5) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Deddf Plismona 2014. Mae adran 39A(2) o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y’i diwygiwyd) yn caniatáu i’r Coleg Plismona, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, adolygu’r cyfan neu unrhyw ran o god ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 39A.

4 Fel sy'n ofynnol o dan adran 39A(4) o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd).

# 2 Sail statudol y Cod

2.1 Cyhoeddwyd y Cod hwn gan y Coleg Plismona gyda chymeradwyaeth Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref. Fe'i gwneir o dan adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996, sy'n caniatáu i'r Coleg Plismona, gyda chymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol, gyhoeddi codau ymarfer sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau gan brif swyddogion yr heddlu, os yw'r Coleg Plismona yn ystyried bod:

- angen gwneud hynny i hybu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd yn gyffredinol
- angen gwneud hynny er mwyn hwyluso gweithrediadau ar y cyd neu gydgysylltiedig gan aelodau o unrhyw ddau neu fwy o heddluoedd
- gwneud hynny am unrhyw reswm arall er budd y wlad

2.2 Mae'r Cod hwn, yn ogystal â disodli'r Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (2005), yn ymestyn cwmpas y Cod y tu hwnt i'r PNC i gwmpasu LEDS hefyd o dan y pŵer a ddarperir gan adran 39A(1).

# 3 Diben y Cod

3.1 O ystyried y pwerau a roddwyd gan adran 39A o Ddeddf yr Heddlu 1996 (**gweler adran 2.1**) mae'r Coleg Plismona o'r farn bod y Cod hwn yn angenrheidiol er mwyn:

- hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd heddluoedd trwy gefnogi defnydd moesegol, teg a diwyd o wybodaeth a gyrchir gan PNC a LEDS
- sicrhau bod prif swyddogion yn mabwysiadu arferion cyson ac effeithiol wrth weithio'n unigol a gyda'i gilydd yn rheolwyr ar y cyd i reoli gwybodaeth o fewn PNC a LEDS
- cefnogi buddiannau cenedlaethol a chyhoeddus trwy gymeradwyo defnydd moesegol, teg a diwyd o wybodaeth a gyrchir gan PNC a LEDS

3.2 Nod y Cod hwn yw rhoi hyder i'r cyhoedd yng nghyfreithlondeb a chywirdeb gwybodaeth sydd ar gael trwy PNC neu LEDS a'r dibenion cyfreithlon y cymhwysir hyn ar eu cyfer. Bydd y Cod yn gwneud hyn fel a ganlyn:

- **Diogelu pobl**: Hwyluso'r defnydd priodol o ddata cywir gan yr heddlu ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ddod â throseddwyr o flaen eu gwell, atal troseddu ac amddiffyn pobl agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys helpu asiantaethau i ddod o hyd i'r rhai sydd ar goll ac i ddiogelu pobl a allai fod yn agored i niwed.
- **Hyrwyddo atebolrwydd**: Sicrhau bod gan bob gweithgaredd a wneir mewn perthynas â PNC neu LEDS linell gyfrifoldeb glir. Dylai pob sefydliad sy'n prosesu data (gan gynnwys drwy ei gyflenwi) ddangos eu bod yn deall ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion sy'n cefnogi'r Cod. Mae'r Cod yn annog tryloywder o ran sut mae data yn cael eu casglu a'u cymhwyso ar gyfer gorfodi'r gyfraith, plismona a diogelu yn cael ei ddefnyddio, ei reoli a'i waredu.
- **Hyrwyddo dealltwriaeth**: Galluogi gwell dealltwriaeth o'r dibenion cyfreithlon ar gyfer prosesu data, gan gynnwys data personol, drwy orfodi'r gyfraith. Mae'r Cod yn defnyddio iaith glir fel y gall defnyddwyr y ddwy system, yn ogystal â'r cyhoedd yn gyffredinol,

fod yn hyderus eu bod yn deall sut y gellir defnyddio data'n briodol i gefnogi atal, ymchwilio, canfod neu erlyn troseddau, i amddiffyn y cyhoedd ac i diogelu pobl agored i niwed. Dylai'r cyhoedd deimlo'n dawel eu meddwl bod y Cod yn atgyfnerthu mesurau diogelu penodol ar gyfer defnyddio data personol gan orfodi'r gyfraith i helpu i ddiogelu eu buddiannau data a phreifatrwydd.

- **Galluogi perfformiad**: Parhau i wella gwerth y wybodaeth a gyrchir ac a ddefnyddir gan PNC neu LEDS trwy hyrwyddo ansawdd data gwell, sicrhau perthnasedd y wybodaeth a chryfhau gweithio mewn partneriaeth lle rhennir gwybodaeth rhwng sefydliadau. Hwylusir hyn drwy hyfforddi defnyddwyr newydd a chan ofyniad i sefydliadau gefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yn rhagweithiol ymhlith holl ddefnyddwyr PNC a LEDS.
- **Hyrwyddo tegwch**: Mae angen hyder ar y cyhoedd yn uniondeb prosesu data trwy orfodi'r gyfraith ac mae angen bod ganddynt ffydd ei fod yn cydymffurfio â'r gyfraith. Rhaid i brosesu data personol drwy orfodi'r gyfraith a phlismona yn benodol fod yn gyfreithlon, yn deg ac yn gyson ag egwyddorion diogelu data. Rhaid i wybodaeth sy'n cael ei chreu a'i chadw gan orfodi'r gyfraith fod yn gymesur, yn gyfreithlon, yn atebol, yn foesegol ac yn angenrheidiol. Mae'r Cod yn cefnogi'r dulliau (hyfforddiant, dysgu, rheoli, archwilio ac arolygu) a fydd yn sicrhau nad yw gwybodaeth, gan gynnwys data personol, yn cael ei defnyddio mewn modd gwahaniaethol neu anfoesegol. Bydd y Cod yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel ei fod yn gyson â'r gyfraith a hawliau dynol esblygol, diogelu data a safonau moesegol.

3.3 I gefnogi'r nodau hyn, mae'r Cod yn adlewyrchu deddfwriaeth diogelu data a hawliau dynol gyfredol. Dylai'r defnydd o'r holl systemau data gydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data'r DU. Dylid darllen y Cod hefyd ar y cyd ag unrhyw ganllawiau perthnasol gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) ar brosesu cyffredinol a gorfodi'r gyfraith.

3.4 Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn darparu hawl i barchu bywyd preifat a theuluol unigolyn, ei gartref a'i ohebiaeth, yn amodol ar rai cyfyngiadau. Mae angen i bob ymyrraeth â'r hawl hon fod yn gyfreithlon ac yn angenrheidiol, a rhaid iddi

fod er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal anhrefn neu droseddu, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu er mwyn amddiffyn hawliau a rhyddid pobl eraill. Bydd hyn yn cynnwys cyflawni cyfrifoldebau penodol i ystyried effaith prosesu data ar hawliau plant a grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Mae gan blant hawl i amddiffyniad penodol o ran eu data personol. Dylai prif swyddogion sicrhau bod pob penderfyniad a wneir mewn perthynas â phrosesu data o fewn ac o PNC neu LEDS yn gyfreithlon, yn foesegol, yn gymesur ac yn angenrheidiol. Drwy wneud hynny, gall y cyhoedd fod yn hyderus yn y ffordd y caiff data personol eu cyrchu a'u rheoli at ddibenion gorfodi'r gyfraith, plismona a diogelu.

# 4 Cwmpas y Cod

4.1 Mae'r Cod hwn yn uniongyrchol berthnasol i:

- y prif gwnstabl, mewn perthynas â heddlu a gynhelir o dan Adran 2 o Ddeddf yr Heddlu 1996
- Comisiynydd Heddlu'r Metropolis, mewn perthynas â Gwasanaeth Heddlu Llundain
- Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer Dinas Llundain, mewn perthynas â heddlu Dinas Llundain

4.2 Rhaid i brif swyddog heddlu [5]roi sylw i'r Cod wrth gyflawni unrhyw swyddogaeth y mae cod ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 39A yn berthnasol iddi.

4.3 Mae'r Cod ar gael i'w fabwysiadu gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill, gan gynnwys heddluoedd nad ydynt wedi'u cynnwys yn y diffiniad a nodir yn **adran 4.1** uchod, gan gynnwys Heddlu'r Alban, Heddlu Gogledd Iwerddon a'r rheini mewn awdurdodaethau lleol eraill. Mae'r asiantaethau hyn yn cyrchu PNC a LEDS trwy gytundeb ysgrifenedig.

4.4 Mae ceisiadau am fynediad gan sefydliadau nad ydynt yn heddluoedd yn amodol ar broses gymeradwyo dryloyw. Mae hyn yn cynnwys rhai sefydliadau masnachol, a all gael mynediad at PNC neu LEDS o dan gytundebau rhannu data gyda mynediad cyfyngedig i ddata wedi'u golygu neu wedi'u hidlo i gefnogi dibenion gorfodi'r gyfraith, megis gwirio am ladrad cerbyd neu dwyll. Mae'r broses hon yn cael ei llywodraethu gan banel mynediad gwybodaeth, a arweinir gan berchennog yr ased gwybodaeth a benodwyd gan yr NPCC ar ran y rheolwyr ar y cyd.

4.5 Er nad yw adran 39A yn ei gwneud yn ofynnol i'r asiantaethau a'r sefydliadau hyn ystyried y Cod, bydd angen cydymffurfio fel rhan o'r trefniadau mynediad sy'n rhoi mynediad i'r asiantaethau a'r sefydliadau hyn at PNC a LEDS. Dylid darllen pob cyfeiriad at brif swyddog felly fel cyfeiriad at yr unigolyn cyfrifol cyfatebol o unrhyw asiantaeth neu sefydliad sy'n defnyddio sy'n cysylltu drwy gytundeb ysgrifenedig.

5 Diffinnir prif swyddogion sy'n cael eu cymhwyso'n uniongyrchol yn adran 101 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd).

4.6 Mae'r Cod yn cydnabod bod fframwaith cyfreithiol presennol (gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data a chyfraith hawliau dynol) sy'n llywodraethu prosesu data a gedwir ar PNC a LEDS, gan gynnwys creu, storio, rhannu a gweithgareddau eraill. Mae'n gyfrifoldeb ar bob sefydliad defnyddwyr i weithredu bob amser yn unol â'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf, fel y'i diweddarwyd neu a ddiwygiwyd. Mae'r ddogfen ganllaw yn rhoi rhagor o fanylion am sut mae'r fframwaith cyfreithiol yn gweithredu.

4.7 Mae deddfwriaeth diogelu data yn nodi cyfrifoldebau a rolau sefydliadol penodol wrth brosesu data personol. Y rheolydd data sy'n penderfynu pwrpasau a dulliau'r gweithgareddau prosesu. Gall hwn fod yn berson naturiol neu gyfreithiol, yn awdurdod cyhoeddus, yn asiantaeth neu'n gorff arall, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill. Rhaid i reolwyr ar y cyd drefnu rhyngddynt eu hunain pwy fydd yn bennaf gyfrifol am gydymffurfio â rhwymedigaethau diogelu data'r DU, ac yn arbennig y rhwymedigaethau tegwch a thryloywder a hawliau unigolion. Mae rhagor o wybodaeth am wahanol gyfrifoldebau diogelu data sefydliadau a'r rolau cysylltiedig ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth ac yn y ddogfen ganllaw.

4.8 O dan ddeddfwriaeth diogelu data mae rheolwyr data yn gyfrifol am eu data eu hunain, ond mae perthnasoedd mwy cymhleth a threfniadau mynediad gwahanol ar gyfer y systemau PNC a LEDS a rennir, sy'n cynnwys rheolwyr lluosog. Mae'r NPCC yn gweithredu'n gorff cydgysylltu ar gyfer prif swyddogion yr heddlu ar draws y Deyrnas Unedig drwy gytundeb a wnaed o dan adran 22A o Ddeddf yr Heddlu 1996. Felly mae rôl gydgysylltu'r NPCC ar gyfer PNC a LEDS yn bwysig ar gyfer defnydd effeithlon ac effeithiol o'r ddwy system hyn, ac ar gyfer rheoli trefniadau mynediad.

4.9 Rhaid i brif swyddogion sicrhau bod unrhyw un o dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth yn prosesu data trwy PNC neu LEDS yn unol â 10 egwyddor y Cod (**gweler 6.1-6.10** isod) a'r ddarpariaeth diogelu data priodol.

4.10 Bydd pob sefydliad sy'n defnyddio PNC a/neu LEDS yn ymrwymo'n ysgrifenedig i weithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod hwn, i gydymffurfio â gofynion Cod Cyswllt ar gyfer pob un o'r systemau, ac i adrodd yn ôl metrigau perfformiad cysylltiedig.

4.11 Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â'r ddogfen ganllaw. Mae'r ddogfen ganllaw yn rhoi rhagor o wybodaeth am y 10 egwyddor ac yn egluro sut y gall rheolwyr sefydliadau defnyddwyr a staff sy'n ddefnyddwyr uniongyrchol gefnogi eu prif swyddogion mewn perthynas â'r Cod.

# 5 Dibenion plismona, gorfodi'r gyfraith a diogelu

5.1 Mae'n ofyniad yn y Cod hwn bod prif swyddogion[6] yn sicrhau eu bod nhw, a'r rhai sydd o dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth, yn defnyddio gwybodaeth a gyrchir drwy PNC neu LEDS yn unol â'r fframwaith rheoleiddiol a deddfwriaethol presennol. Mae darnau allweddol o ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu pa ddata y gellir ei gofnodi, y safon y mae'n rhaid ei gofnodi yn ei herbyn, sut y gellir defnyddio'r data hwnnw a sut y dylid ei reoli.

5.2 Mae'r Cod hwn yn ymwneud â'r defnydd o ddata a gesglir o fewn PNC neu LEDS yn bennaf at ddibenion gorfodi'r gyfraith, ond hefyd at ddibenion plismona a diogelu ehangach.

5.3 Mae'r diffiniad o ddibenion gorfodi'r gyfraith o dan adran 31 o DPA 2018 wedi'i fabwysiadu gan y Cod hwn:

> 'Atal, ymchwilio, canfod neu erlyn troseddau neu weithredu cosbau troseddol, gan gynnwys diogelu rhag ac atal bygythiadau i ddiogelwch y cyhoedd.'

5.4 Diffinnir dibenion plismona at ddibenion y Cod hwn fel:

- diogelu bywyd ac eiddo
- cadw trefn
- atal cyflawni troseddau
- dod â throseddwyr o flaen eu gwell
- unrhyw ddyletswydd neu gyfrifoldeb ar yr heddlu sy'n deillio o gyfraith gwlad neu gyfraith statud

5.5 Mae'r Cod hefyd yn ymdrin â phrosesu data i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Cyfeirir at y prosesu hwn fel rhywbeth ar gyfer dibenion diogelu, term sy'n cwmpasu amddiffyn iechyd, lles a hawliau dynol unigolion sydd mewn perygl, gan eu galluogi i fyw'n ddiogel, yn rhydd rhag camdriniaeth ac esgeulustod.

---

6 Y prif swyddogion hynny fel y'u diffinnir yn adran 101 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd).

5.6 O dan fframwaith deddfwriaethol sylfaenol y DU ar gyfer diogelu data, mae prosesu data personol at ddibenion gorfodi’r gyfraith yn cael ei drin yn wahanol i brosesu data personol at ddibenion eraill. Mae’r ddogfen ganllaw yn rhoi rhagor o wybodaeth am sut mae prosesu data ar gyfer gweithgareddau plismona neu ddiogelu ehangach yn cael ei ystyried o dan y ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol. Bydd prosesu data PNC a LEDS at ddibenion dadansoddi neu ymchwil yn parhau i gefnogi dibenion gorfodi'r gyfraith a phlismona. Mae'n hanfodol bod holl ddefnyddwyr PNC a LEDS yn deall y seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu data a bod ganddynt fynediad at arbenigwyr diogelu data i gael cyngor.

# 6 Deg egwyddor ar gyfer defnydd moesegol a phroffesiynol o ddata a gwybodaeth

Mae'r Cod yn nodi 10 egwyddor y dylid eu cymhwyso yng nghyd-destun PNC a LEDS. Tanategir yr egwyddorion hyn gan egwyddorion diogelu data cyfredol ac maent yn ystyried saith egwyddor bywyd cyhoeddus ('Egwyddorion Nolan') a'r safonau moesegol ar gyfer plismona.

## 6.1 Diogelu'r data a gedwir ar systemau

Rhaid bod trefniadau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch priodol y data, gan gynnwys amddiffyniad rhag mynediad anawdurdodedig, prosesu anghyfreithlon neu anawdurdodedig ac yn erbyn colled, dinistr neu ddifrod damweiniol. Bydd hyn yn sicrhau y gall y cyhoedd fod yn hyderus am gywirdeb a chyfrinachedd y wybodaeth sydd wedi'i storio.

## 6.2 Creu'r cofnod data ar PNC neu LEDS

Dim ond at ddibenion gorfodi'r gyfraith, dibenion plismona neu ddiogelu eraill y dylid creu neu gofnodi data sy'n cael ei storio ar PNC neu LEDS. Dylai cofnodion data fod yn ddigonol, yn berthnasol ac yn gyfyngedig i'r hyn sy'n angenrheidiol at y diben penodol y maent yn cael eu prosesu ar ei gyfer. Rhaid iddynt gydymffurfio ag egwyddorion diogelu data a chymhwyso safonau ansawdd data cenedlaethol. Dylai pob aelod o'r sefydliad ddeall pwysigrwydd data o ansawdd uchel a chael mynediad at yr offer a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni hyn.

## 6.3 Diwygio a diweddaru'r cofnod data

Rhaid i'r data sy'n cael ei storio ar PNC neu LEDS fod yn gywir ac yn gyfredol. Bydd y data'n cael ei ddefnyddio'n weithredol gan asiantaethau sydd ei angen i gyflawni eu cyfrifoldebau gorfodi'r gyfraith, plismona a diogelu eraill. Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol bod y set ddata yn cael ei hadolygu a'i diweddaru'n rhagweithiol i sicrhau ei bod yn gywir ac yn gyfredol. Rhaid cywiro unrhyw wallau a nodir cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

## 6.4 Dilysu'r cofnod data

Rhaid i'r data sydd ar gael ar PNC neu LEDS fod yn gywir ac yn berthnasol. Mae hyn yn golygu dilysu neu wirio'r cronfeydd data i sicrhau bod y wybodaeth a gesglir o wahanol ffynonellau data yn gywir, mewn fformat safonol ac yn rhydd o ddyblygu diangen.

## 6.5 Adolygu, cadw a gwaredu data

Yn unol â chyfundrefn diogelu data'r DU, rhaid adolygu data sy'n cael ei storio a'i brosesu fel arall gan orfodi'r gyfraith o fewn PNC a LEDS yn rheolaidd i wneud penderfyniadau gwybodus ar gadw a dileu'r data hwnnw, yn enwedig data personol. Rhaid i reolwyr data sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a pholisi i ddiogelu cywirdeb y data. Lle bo data dan reolaeth ar y cyd, rhennir y cyfrifoldebau hynny gan y rheolwyr ar y cyd. Ni ddylid cadw data am gyfnod hwy nag sydd angen. Dylai hyn ddilyn y broses lywodraethu ffurfiol, genedlaethol ar gyfer adolygu, cadw a gwaredu data.

## 6.6 Cyrchu a chymhwyso'r data a gedwir

Rhaid i'r holl ddata a gedwir ar PNC a LEDS gael eu prosesu'n foesegol, yn broffesiynol ac yn unol â'r gyfraith (gan gynnwys deddfwriaeth diogelu data, hawliau dynol a chydraddoldeb).

## 6.7 Adrodd a dadansoddi'r data a gedwir

Rhaid asesu cywirdeb data a gesglir o fewn PNC neu LEDS a'i ddadansoddi'n ofalus, fel bod y canlyniadau'n ddibynadwy i arwain y broses o wneud penderfyniadau a/neu ddyrannu adnoddau.

## 6.8 Rhannu data a gedwir

Mae mynediad a rennir at ddata yn hanfodol i gyflawni dibenion gorfodi'r gyfraith, plismona eraill, diogelwch cenedlaethol neu ddiogelu. Mae'r Cod yn ceisio annog datgeliad data effeithiol i gefnogi gorfodi'r gyfraith a diogelu'r cyhoedd yn well. Dylai hyn bob amser gydymffurfio â gofynion y gyfraith, yn ogystal â safonau moesegol a phroffesiynol.

## 6.9 Atebolrwydd am fynediad at ddata a'r defnydd ohono, a'r archwiliad ohono

Mae deddfwriaeth diogelu data yn gosod rhwymedigaethau ar reolwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio drwy roi mesurau diogelu data priodol ac effeithiol ar waith. Mae hyn yn cynnwys mesurau megis archwilio lleol o weithgarwch mynediad a phrosesu.

## 6.10 Hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus

Bydd hyfforddiant a dysgu rheolaidd yn sicrhau cywirdeb system, gwell amddiffyniad i hawliau testunau data a gwell canlyniadau ar gyfer gorfodi'r gyfraith. Rhaid i drefniadau fod yn eu lle o fewn yr holl sefydliadau defnyddwyr i hyfforddi defnyddwyr newydd a chefnogi datblygiad proffesiynol parhaus yn rhagweithiol, i sicrhau bod y lefelau uchaf o lythrennedd data yn cael eu cyflawni a'u cynnal.

# 7 Cydymffurfiaeth a chamymddwyn

7.1 Gellir ystyried y Cod mewn llys barn a chyfeirio ato mewn achosion disgyblu. Gallai'r Cod gael ei ystyried gan y rhai sy'n dal defnyddwyr i gyfrif am arferion rheoli data mewn cyd-destun gorfodi'r gyfraith neu ddiogelu – er enghraifft, yr ICO, neu Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Bydd HMICFRS yn ystyried y Cod wrth gyflawni ei gyfrifoldebau statudol mewn perthynas â heddluoedd yng Nghymru a Lloegr, a bydd trefniadau tebyg ar waith ar gyfer heddluoedd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, drwy gytundeb. Trwy gytundeb ysgrifenedig, bydd yn ofynnol i bob sefydliad defnyddwyr gydweithredu â threfniadau monitro, a all gynnwys arolygiad posibl gan HMICFRS.

7.2 Rhaid i brif swyddogion sicrhau bod unrhyw un o dan eu cyfarwyddyd a'u rheolaeth sy'n defnyddio gwybodaeth gan PNC neu LEDS at ddibenion gorfodi'r gyfraith, plismona neu ddiogelu yn ymwybodol o'r canlyniadau posibl pe baent yn methu â gweithredu yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod neu'r ddeddfwriaeth berthnasol. Er y gall prif swyddogion ddirprwyo'r gwaith o gyflawni eu cyfrifoldebau i uwch reolwyr, megis uwch berchennog risg gwybodaeth (SIRO), byddant yn parhau i fod yn gyfrifol am unrhyw fethiannau gan y sefydliad o ran cydymffurfio â'r Cod a deddfwriaeth berthnasol.

7.3 Rhaid i brif swyddogion, gan gydweithio fel rheolwyr ar y cyd, sefydlu fframwaith llywodraethu effeithiol sy'n sicrhau bod PNC a LEDS yn cael eu defnyddio'n gyfreithlon, yn foesegol ac yn broffesiynol. Dylai hyn adeiladu ar strwythurau cydymffurfio diogelu data.

7.4 Yn ogystal â'u rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â chwythu'r chwiban, mae'n rhaid i brif swyddogion gydymffurfio â threfniadau cenedlaethol sydd wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn y rhai sy'n mynegi pryderon am gamddefnyddio gwybodaeth a gyrchir drwy'r systemau. Bydd bodolaeth y trefniadau chwythu'r chwiban lleol yn rhan o'r drefn arolygu. Mae'n amod mynediad i'r ddwy system bod gan HMICFRS bwerau i archwilio sefydliadau gorfodi'r gyfraith eraill sydd â mynediad i'r ddwy system, yn ogystal â heddluoedd. Bydd gan gyrff eraill, fel y Comisiynydd Biometreg a Chamerâu Gwyliadwriaeth neu'r IOPC,

ddiddordeb hefyd yn y modd y caiff y Cod hwn ei gymhwyso. Wrth i LEDS ddatblygu, efallai y rhoddir ystyriaeth bellach i drefniadau goruchwylio ychwanegol.

7.5 Lle bo'n briodol, gellir diwygio'r Cod cyfan neu unrhyw ran ohono yn unol ag adran 39A(2) o Ddeddf yr Heddlu 1996. Bydd y Coleg Plismona, gan weithio gyda'r NPCC a'i gefnogi gan y Swyddfa Gartref, yn cynnal adolygiad blynyddol o'r Cod hyd nes y bydd LEDS yn dod yn gwbl weithredol a PNC wedi'i ddatgomisiynu. Bydd adolygu'n parhau'n rheolaidd wedi hynny a bydd yn ystyried newidiadau yn swyddogaeth a defnydd y PNC a'r LEDS wrth i amser fynd rhagddo. Bydd hyn hefyd yn adlewyrchu newidiadau i ddeddfwriaeth a chanllawiau, yn ogystal â newidiadau i'r defnydd o ddata a gedwir o fewn y systemau. Bydd pob adolygiad yn cynnwys proses ymgynghori ffurfiol.

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

E02809802
978-1-5286-3740-4